

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

Practis Deintyddol Gwynfryn,  
Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 20 Mehefin  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	What we did .....	5
2.	Summary of our inspection .....	6
3.	What we found .....	8
	Quality of patient experience .....	9
	Delivery of safe and effective care .....	13
	Quality of management and leadership .....	18
4.	What next? .....	20
5.	How we inspect dental practices .....	21
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection .....	22
	Appendix B – Immediate improvement plan .....	23
	Appendix C – Improvement plan .....	24

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ym Mhractis Deintyddol Gwynfryn, Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EE ar 20 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Gwynfryn yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddir digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Cofnodion clinigol da iawn
- Roedd digon o gyfleusterau llawfeddygaeth ar gael, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-x yn ddiogel
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arolygu a diweddarau'r polisiau cydraddoldeb, diogelu a chwythu'r chwiban
- Sicrhau bod hanes cymdeithasol y cleifion yn cael ei gofnodi

- Sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u selio wrth eu hymylon er mwyn gwneud y gwaith o'u glanhau yn haws.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Practis Deintyddol Gwynfryn.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, un therapydd, dwy nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat megis:

- Gwynnu dannedd.
- Coronau a phontydd
- Argaenau porslen
- Llenwadau gwyn
- Ailffurfio cig y dannedd ac ail-lunio dannedd
- Mewnblaniadau deintyddol
- Orthodonteg



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Gwynfryn yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut allai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir, ac ymysg rhai o'r ymatebion yr oedd:

*'Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth'*

*'Maen nhw mor gyfeillgar a charedig, ni allaf feddwl am unrhyw beth allai wella'r gwasanaeth'*

*'Ddim yn berthnasol oherwydd mae'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth yn ateb y gofyn. Cyfleuster rhagorol.'*

Yr unig welliannau a awgrymwyd oedd:

*'Gellir gwella'r ddeintyddiaeth gosmetig breifat'*

*'Diweddarau'r wefan'*

## Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i

ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a thafenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmegu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi'u trin â pharch wrth ymweld â'r practis a'u bod wedi'u croesawu gan dîm y practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

## **Gwybodaeth cleifion**

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a'r prisiau cysylltiedig a oedd ar gael iddynt o ran triniaeth. Nifer bach iawn o gleifion a nododd nad oeddynt yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei gyfrifo. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan, ac roedd yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd gan y practis lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhai o'r staff yn y practis yn gallu cyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog. Roedd bron hanner o'r bobl a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd pawb ond un o'r cleifion hyn wrthym fod modd iddynt siarad gydag aelod o staff yn y Gymraeg yn y practis bob amser. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn yr iaith o'u dewis.

### Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad. Dywedodd y cleifion y buom yn siarad â nhw ar y diwrnod nad oeddynt wedi profi unrhyw oedi mawr yn y ddeintyddfa.

Dywedodd bron chwarter o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddynt yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol ar frys ganddynt. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau'r tu allan i oriau pe bai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa ac fe'i rhoddir hefyd ar neges y peiriant ateb.

### Gofal unigol

#### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am sut i gadw eu dannedd a'u ceg yn iach. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cytunodd pawb eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth a'r opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

## Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r polisi.

Roedd digonedd o gyfleusterau parcio ceir i gleifion a staff. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lawr daear y practis ac roeddent yn gallu cael mynediad at y dderbynfa, man aros, cyfleusterau toiled ac un ystafell driniaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu a diweddarau'r polisi cydraddoldeb.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Nododd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom fod y weithdrefn i gleifion ar gyfer gwneud cwyn neu fynegi pryder ar gael yn glir ac yn ddwyieithog yn y man aros.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gasglu adborth gan y cleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion. Dywedodd y practis wrthym y caiff yr adborth ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos bod eu hadborth unigol wedi cael ei gasglu ac y gweithredwyd arno i ategu dysgu a gwelliant yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuom fod gofal deintyddol diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion.

Roedd cofnodion cleifion o safon uchel.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion heblaw un a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn nhw, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un tŷ bach deuryw at ddefnydd cleifion ac un tŷ bach ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân. Gwelsom fod un o'r cyfleusterau ar gyfer staff yn cael ei ddefnyddio fel ystafell newid ac fel lleoliad i'r staff storio eu heiddo personol. Fodd bynnag, nid oedd modd cloi'r drws er mwyn atal unrhyw un heb ganiatâd rhag mynd i mewn.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod mecanwaith priodol ar gyfer cloi'r drws yn cael ei roi ar ystafell newid y staff er mwyn atal unrhyw un heb ganiatâd rhag mynd i mewn.

Gwelsom fod prawf dyfeisiau cludadwy wedi'i gwblhau diwethaf ym mis Mawrth 2015, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom awgrymu i'r practis y byddai cynnal profion bob hyn a hyn yn fwy rheolaidd yn enghraifft o'r arfer gorau. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd dadheintio'r offer deintyddol yn cael ei wneud o fewn yr ystafell driniaeth ac roeddem yn fodlon bod y trefniadau a oedd ar waith mor effeithiol ac addas ag y gallent fod o ystyried nad oes ystafell ddadheintio ar wahân. O fewn yr ystafell driniaeth, roedd man dynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio a chanfuom fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer arfer gorau. Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau ar gyfer gwella'n cael eu hystyried er mwyn cael ystafell ddadheintio ar wahân.

Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd y llyfr cofnodi, lle'r oedd y practis yn nodi eu harfer bob dydd o sterileiddio'r offer, wedi'i drefnu'n dda.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y risg o groes-heintio mor isel ag y bo modd er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos yn y manau perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd uned sugno gludadwy yn rhan o becyn y practis. Yn ystod yr arolygiad, aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynghylch y pecyn pe bai argyfwng. Rhoddir manylion y gwelliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad A.

Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith a oedd yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethom gynghori'r practis i arolygu a diweddarau'r polisi er mwyn adlewyrchu'r practis cyfredol o ran profion Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol a bod yr holl ddeintyddion yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dim ond deintyddion sydd wedi cofrestru gydag AGIC sy'n gorfod meddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf).

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylid adolygu a diweddarau'r polisi diogelu.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd lloriau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u selio wrth eu hymylon. Dywedodd y practis wrthym fod trefniadau ar waith i'r lloriau gael eu selio fel rhan o'r cynllun ar gyfer gwella.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol o ddelweddau pelydr-x.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl loriau yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'u selio wrth eu hymylon er mwyn gwneud y gwaith o'u glanhau yn haws.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd modd i ni weld bod yr holl archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau a'u trefnu yn y practis, megis ansawdd y pelydrau-x, cofnodion clinigol, croes-heintio, hylendid dwylo, glanhau a rhoi presgripsiwn ar gyfer gwrthficrobiaid.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis ddulliau datblygu mewnol er mwyn gwella ansawdd. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried defnyddio'r *Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth* a ddefnyddir gan Ddeoniaeth Cymru. Mae hwn yn



ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da iawn, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles o safon dda ar gyfer cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau'n cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth, ac roedd yr holl gleifion yn derbyn cynllun triniaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid oedd hanes cymdeithasol y cleifion yn cael ei gofnodi.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Sicrhau bod hanes cymdeithasol y cleifion yn cael ei gofnodi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd hi'n effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Dywedasant wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon gyda rheolwr y practis, ac roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant; roedd hyn yn bodloni'r gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y tri deintydd yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos mewn lle amlwg y tu ôl i'r dderbynfa un unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu harolygu'n rheolaidd, yn cynnwys y dyddiadau roeddynt yn cael eu harolygu a / neu yn cael eu rheoli fesul fersiwn ac yn cynnwys llofnodion y staff a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod angen i'r practis ddiweddarau eu polisi chwythu'r chwiban i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod y polisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddarau i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

## 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal mewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau iechyd annibynnol](#) ar gael ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Gwelsom nad oedd uned sugno gludadwy ar gael yn rhan o'r pecyn pe bai argyfwng yn y practis.	O ganlyniad, roedd risg i gleifion pe bai argyfwng.	Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn a gwnaethant drefnu bod yr eitem yn cael ei phrynu ar unwaith.	Bu i'r staff archebu ar unwaith ar ddiwrnod ein hymweliad er mwyn cyrraedd y diwrnod canlynol.

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Gwynfryn

**Dyddiad yr arolygiad:** 20/06/2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** JAMES BENNETT

**Swydd:** PENNAETH

**Dyddiad:** 21/07/2017

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Gwynfryn

**Dyddiad yr arolygiad:** 20 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylid adolygu a diweddarau'r polisi cydraddoldeb.	Adran y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.6.1, 6.12	Mae'r Polisi Cydraddoldeb wedi'i arolygu a'i ddiweddarau.	June Lock Rheolwr y Practis	CWBLHAWY D
Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 2.1	Tystlythyron, canlyniadau a sylwadau o'r adborth i'w hychwanegu at y wefan.	James Bennett Pennaeth	3 mis
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod mecanwaith priodol ar gyfer cloi'r drws yn cael ei roi ar ystafell newid y staff er mwyn atal unrhyw un heb ganiatâd rhag mynd i mewn.	Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles) - Rheoliad 23	Mae clo wedi'i osod ar ddrws ystafell newid y staff er mwyn diogelu eiddo'r staff.	June Lock Rheolwr y Practis	CWBLHAWY D
Dylid adolygu a diweddarau'r polisi diogelu.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adrannau 4.3.3 a 8.5	Mae'r polisi diogelu wedi'i adolygu a'i ddiweddarau.	June Lock Rheolwr y Practis	CWBLHAWY D
Sicrhau bod lloriau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u selio wrth eu hymylon er mwyn gwneud y gwaith o'u glanhau yn haws.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adrannau 6.47 a 6.48	Pan fyddwn yn ailosod y llawr nesaf, byddwn yn sicrhau bod ymylon crwm sydd wedi'u selio yn cael eu gosod.	James Bennett	Yn parhau
Sicrhau bod hanes cymdeithasol y cleifion yn cael ei gofnodi.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol,	Ychwanegir y wybodaeth hon yn apwyntiad archwilio nesaf y cleifion.	James Bennett James Forshaw	Yn parhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Adran 4.1		Dewi Williams	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Sicrhau bod y polisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddarau i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 8.4	Mae'r Polisi hwn bellach wedi'i ddiweddarau gyda manylion AGIC er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.	June Lock Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **JAMES BENNETT**

Swydd: **PENNAETH**

Dyddiad: **21/07/2017**